Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Gwyliau Maelor**

**Ysgol Bodhyfryd**
**Range Road**
**Hightown**
**Wrecsam**
**LL13 7DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/08/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb Gwyliau Maelor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Alison White |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14/08/2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy<br>Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mwynhau eu hunain yn y lleoliad hwn, am eu bod yn cael eu parchu ac yn brysur yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Maent yn ddiogel, yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff galluog yn gofalu am y plant yn dda ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae digonedd o ardaloedd chwarae a gweithgareddau wedi'u gosod allan i feithrin sgiliau. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn addas ar gyfer y plant. Mae digonedd o deganau a gemau ar gael, ac mae'r rhain mewn cyflwr da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi tîm o staff ymroddedig. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn â'r rhieni, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol ac yn helpu eu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan y plant lais a gallant ddylanwadu ar eu gofal. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae eu diddordebau'n cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, gallent ddewis pa deganau i chwarae â nhw ac roedd dewis o fyrbrydau. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus gan eu bod yn gwybod bod y staff yn eu parchu ac yn gwrando arnynt.

Mae'r plant wedi setlo ac yn meithrin cydberthnasau â'r staff, gan fod yr un aelodau o'r staff yn gofalu amdanynt. Maent yn fwy na pharod i fynd at y staff i gael sgyrsiau anffurfiol. Dywedodd rhiant wrthym fod ei blentyn yn mwynhau mynychu'r lleoliad a bod ganddo ffrindiau yno. Mae'r plant yn hyderus, er enghraifft, maent yn gyfarwydd â'r drefn feunyddiol ac roedd plentyn a oedd yn newydd i'r lleoliad yn fodlon ei fyd ac wrth ei fodd yng nghwmni’r plant eraill.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'r plant eraill. Maent yn cydweithredu'n dda pan ofynnir iddynt olchi eu dwylo ac eistedd wrth y byrddau i gael byrbryd. Mae'r plant yn rhannu adnoddau, megis cymryd eu tro i chwarae sgitls, ac yn gwneud ffrindiau, sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn ymgysylltu ag ef. Gwelsom y plant yn ymgolli mewn gweithgareddau, megis paentio adenydd ar gyfer pili-pala. Maent yn archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac yn defnyddio adnoddau, er enghraifft, chwarae â'r teganau byd bach yn yr awyr agored a thrafod â'i gilydd sut i drefnu ceir a garej mewn ardal benodol. Maent yn awyddus i rannu'r hyn y maent yn ei wneud â phlant eraill ac yn chwarae'n ddychmygus ag adnoddau. Roedd hi'n bleser clywed y plant yn dweud, *“Look, this one has a flat tyre” (Edrych, mae gan y car hwn deiar fflat)* a *“I can’t move ‘cos I haven’t got any petrol” (Dwi ddim yn gallu symud oherwydd does gen i ddim petrol)*.

Caiff y plant gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau, ac yn rhoi teganau i gadw ar ôl eu defnyddio cyn cael byrbryd. Cânt eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a mynd i'r toiled yn annibynnol yn ôl yr angen.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac wedi adolygu'r lleoliad a'r gofal yn unol â'r canllawiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19. Mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant a hylendid bwyd, ac mae ganddynt dystysgrifau cymorth cyntaf pediatreg cyfredol. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr agored. Maent yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn darparu byrbrydau iach, fel pob math o fara a ffrwythau. Fodd bynnag, nid oes cofnod o'r byrbrydau sy'n cael eu cynnig i'r plant.  Mae'r staff yn dilyn arferion glanhau effeithiol, ac maent yn sychu byrddau ac arwynebau rhwng gweithgareddau.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad ac yn hybu eu hunan-barch; maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt, er enghraifft ar ôl golchi eu dwylo'n annibynnol neu rannu'r beiciau. Mae'r staff yn dangos esiampl dda wrth iddynt ryngweithio'n dda â'r plant, neilltuo amser iddynt a siarad â nhw. Maent yn gwrtais ac yn rhesymol gyda'r plant, gan ddelio ag ymddygiad amhriodol yn dda.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn ymwybodol iawn o sgiliau a dewisiadau'r plant gan fod y ffurflenni cofrestru yn gynhwysfawr, ac mae rhai o'r plant wedi bod yn mynychu ers blynyddoedd lawer. Mae'r staff yn cynllunio'n anffurfiol yn seiliedig ar themâu, megis pryfed. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynlluniau ysgrifenedig. Maent yn ymwybodol iawn o gryfderau, anghenion a hoff bethau'r plant, gan sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, maent yn gwybod am unrhyw alergeddau sydd gan y plant ac yn osgoi bwydydd os bydd angen. Dywedodd rhiant wrthym fod ei blentyn yn dod â lluniau a phaentiadau adref o'r lleoliad a'i fod yn brysur yno.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi nodi risgiau ac wedi cymryd camau i'w lleihau neu eu dileu, er enghraifft mae drws ffrynt wedi'i gloi yn sicrhau nad oes mynediad diawdurdod. Mae ymarferion tân rheolaidd a gofnodir yn dangos bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau amgylchedd addas ac yn darparu amrywiaeth o ardaloedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn lle gall y plant chwarae ac archwilio. Mae prif ystafell fawr yn cynnwys blychau storio lle gall plant helpu eu hunain i adnoddau a dodrefn ar gyfer y plant iau a'r plant hŷn. Mae'r ardal hon yn olau, ac yn arddangos gwaith y plant. Mae dwy ardal awyr agored, sy'n cynnwys iard dan do ac ardal laswelltog â choed, lle mae'r plant yn mwynhau bod yn yr awyr agored. Mae'r staff yn defnyddio'r lle yn effeithiol ac mae'r plant yn mynd allan i'r awyr agored bob dydd.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau yn addas, gan gynnwys eitemau crefft a chwarae byd bach, yn ogystal â beiciau, peli a chyfarpar awyr agored. Mae yna doiled hygyrch ar gyfer y plant hŷn ac un llai o faint ar gyfer y plant iau. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol. Mae'r adnoddau, sy'n addas ar gyfer oedran y plant, mewn cyflwr da.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am yr arferion gofal plant cyfredol, a nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben sy'n hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn gynhwysfawr ac yn ystod ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad gwelsom fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni yn effeithiol. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu diweddaru ond nid ydynt yn cael eu dyddio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol, er nad ydynt wedi cynnal adolygiad ffurfiol ers y flwyddyn ddiwethaf gan fod y lleoliad wedi bod ar gau. Yn ddiweddar gofynnwyd i'r rhieni am eu barn er mwyn paratoi ar gyfer yr adolygiad nesaf. Mae cynlluniau i brynu rhagor o gyfarpar awyr agored sy'n addas ar gyfer y plant hŷn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod prosesau recriwtio staff boddhaol ar waith. Mae ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl wiriadau ar waith i ddangos bod y staff yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r arfarniadau blynyddol yn cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Mae'r staff yn cydweithio'n dda, ac mae pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, gan achub y blaen wrth arwain y plant yn briodol. O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig sydd ag agwedd rwydd. Dywedodd rhiant wrthym fod y staff yn hyblyg o ran oriau mynychu ei blentyn, ac maent yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu hyfforddiant i'r staff ac mae cyrsiau ychwanegol ar Waith Chwarae wedi cael eu cwblhau. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am sut i ddarparu amgylchedd dysgu cyfoethog i'r plant.

Mae dulliau cyfathrebu effeithiol ar waith rhwng y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r rhieni, sy'n adlewyrchu pa mor bwysig yw'r bartneriaeth â'r rhieni iddynt. Gall y rhieni siarad â'r staff am ofal eu plentyn pan fyddant yn dod â'u plant neu'n eu casglu. Dywedodd rhiant wrthym y bydd y person â chyfrifoldeb yn anfon neges destun yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol, a'i fod yn ymateb i unrhyw gwestiynau'n gyflym bob amser.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1 –** cadw cofnod o'r byrbrydau a ddarperir i ddangos bod bwyd maethlon yn cael ei gynnig yn gyson.

**A2 –** paratoi cynlluniau ysgrifenedig yn seiliedig ar themâu i adlewyrchu'r gweithgareddau a ddarperir.

**A3 –** mae angen dyddio polisïau er mwyn dangos pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. **Wedi ei gyflawni** | |
|---|---|
| Ni chwblhawyd unrhyw arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff. | |
| Nid oedd ffeiliau'r staff yn gyflawn gan nad oeddent yn cynnwys ail eirda na rhai tystysgrifau cymwysterau. | |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. **Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/09/2021